

## Bwrdd Cymwysterau Cymru QWB32E

### Cofnodion Cyfarfod Eithriadol o Fwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2020

#### **Mynychwyr:**

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Ellen Donovan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

#### **Yn Bresennol:**

Jo Richards (JR), Tom Anderson (TA), Mark Hogan (MH), Kate-Stokes Davies (KSD), Kay Powell (EKP), Kerry Davies (KD), Alison Standfast (AS), Cassy Taylor (CT), Emyr George (EG), Jo Valentine (JV) – Llywodraeth Cymru, Helen Murray (HM) Cofnodydd.

#### **Ymddiheuriadau:**

Datganwyd gwrthdaro buddiannau gan Claire Morgan, Arun Midha, Angela Maguire-Lewis.

## **1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd tri aelod o'r Bwrdd yn bresennol oherwydd gwrthdaro buddiannau datganedig. Gofynnwyd am ddatganiadau pellach. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant pellach.

## **2. Cymeradwyo Modelau Safoni ar gyfer Haf 2020 mewn perthynas â Thystysgrifau Her Sgiliau, TGAU (Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl)) a TGAU (Cam 1)**

- 2.1. Cyflwynodd JR y papur ar y modelau safoni arfaethedig. Amlinellodd y modelau oedd wedi'u cymeradwyo hyd yma mewn perthynas â Safon Uwch, Iefelau UG, Cyfnod 2 a 3 TGAU. Esboniodd y byddai'r cyfarfod bellach yn canolbwyntio ar Wyddoniaeth TGAU (Dyfarniad Dwbl), Gwyddoniaeth Gymhwysol TGAU (Dyfarniad Dwbl) a TGAU Cyfnod 1 (Iaith a Llenyddiaeth Saesneg a Chymraeg, Rhifedd a Mathemateg).
- 2.2. Gofynnodd i aelodau'r Bwrdd nodi bod yr ystadegau cywirdeb yn seiliedig ar ddata hanesyddol lle nad oedd trefn restrol ac felly eu bod yn ddangosol ac efallai na fyddant yn arwain at yr un canlyniadau wrth gael eu rhedeg ar ddata 2020.

- 2.3. Gofynnodd ymhellach i aelodau'r Bwrdd nodi y bu newidiadau, yn hanesyddol felly, mewn bylchau cyrhaeddiad bob blwyddyn, felly gellid disgwyl gwahaniaethau tebyg yn Haf 2020. Esboniodd y gofynnwyd i CBAC fonitro bylchau cyrhaeddiad yn glòs er mwyn atal bylchau cyrhaeddiad rhag ehangu'n sylweddol lle bynnag y bo modd.
- 2.4. Atgoffodd y Bwrdd am y gwahanol fathau o fodelau a grybwyllir yn y papur (DCP, NCUC ac MBR)
- 2.5. Yn gyntaf, cyflwynodd y cynigion ar gyfer y modelau safoni mewn perthynas â Thystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4, Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Ôl-16 Cenedlaethol a Sylfaen.
- 2.6. Esboniodd fod model tebyg i NCUC wedi'i gynnig ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau (math o sgorio Z). Roedd y model hwn yn wahanol i'r un gan NCUC am nad oedd y data banciedig yn sefydlog, felly byddid yn ymgymryd â sgorio Z ar y data sydd ar gael ar gyfer pob ymgeisydd.
- 2.7. Gofynnodd i aelodau'r Bwrdd nodi bod CBAC wedi edrych ar dri amrywiad mewn perthynas â dull sgorio Z. Nid oedd dau o'r dulliau yn defnyddio'r drefn restrol. Cynnig CBAC oedd defnyddio'r dulliau sgorio Z a ddefnyddiai'r drefn restrol (gan alinio â'r dull NCUC). Esboniodd, yn achos yr ychydig ymgeiswyr oedd yn ymgymryd â'r THS mewn dull llinol (lle nad oedd unrhyw unedau wedi'u bancio), yna cynigiwyd dychwelyd i'r dull DCP.
- 2.8. Esboniodd ymhellach fod CBAC wedi profi dull "cyfrifiad lluosog". Adroddodd fod materion wedi'u canfod wrth ei brofi felly ni chynigiwyd y fethodoleg hon.
- 2.9. Dywedodd fod 15 o ddysgwyr yn ymgymryd â'r Dystysgrif Her Sgiliau Ôl-16 Genedlaethol gyda phob un ohonynt wedi sefyll y cymhwyster mewn dull llinol. Esboniodd mai'r bwriad oedd dyfarnu'r Graddau Asesu Canolfannau (CAGau) i'r ymgeiswyr hyn. Esboniodd fod y dosbarthiad gradd ar gyfer y 15 ymgeisydd yma yr hyn y gellid ei ddisgwyl.
- 2.10. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am sylwadau a chwestiynau ar gynigion y THS.
- 2.11. Gofynnodd aelodau'r bwrdd a fyddai unrhyw achosion lle byddai'r drefn restrol yn cael ei thorri er mwyn addasu ar gyfer bylchau cyrhaeddiad. Eglurodd JR nad y bwriad oedd torri'r drefn restrol gan mai dyma oedd yn sail i'r modelau ystadegol. Gellid gwneud addasiadau bach ar gyfer bylchau cyrhaeddiad, er enghraifft, trwy wneud ffin gradd yn fwy trugarog os oes angen ond byddai'r drefn restrol yn cael ei cadw.
- 2.12. Gofynnodd aelodau'r bwrdd faint o ganolfannau oedd yna lle y gellid defnyddio'r model DCP (lle nad oedd unrhyw ddata asesu wedi'i fancio). Ymatebodd JR y byddai'n ofynnol i CBAC ddarparu gwybodaeth am hyn.
- 2.13. Gofynnodd aelodau'r bwrdd beth oedd y gweithdrefnau ar gyfer monitro CBAC trwy gydol y broses, gan gynnwys riportio digwyddiadau. Ymatebodd JR fod proses ar

waith y cytunwyd arni rhwng Cymwysterau Cymru a CBAC. Esboniodd fod arsylwyr Cymwysterau Cymru yn y cyfarfodydd dyfarnu, ysgrifennwyd adroddiad cydymffurfio, ac roedd CBAC yn cynhyrchu Adroddiad Penderfyniadau Cymwysterau ar gyfer pob cymhwyster. Dywedodd fod rheoli digwyddiadau yn parhau fel arfer ac y byddai unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu nodi i Gymwysterau Cymru.

- 2.14. Gofynnodd aelodau'r bwrdd a oedd y graddau Tystysgrifau Her Sgiliau (THS) a aseswyd gan ganolfannau'n fwy tebygol neu'n llai tebygol o gael eu codi nag ar gyfer y cymwysterau cyffredinol eraill. Ymatebodd JR ei fod yn gymhwyster a aseswyd gan athro ac nad oedd fawr o dystiolaeth yn nodi unrhyw godi.
- 2.15. Gofynnodd aelodau'r bwrdd a oedd unrhyw ddadansoddiad gwahaniaethol y gellid ei wneud yn erbyn unrhyw gymaryddion er mwyn gwirio am ragfarn yn y drefn resol. Ymatebodd TA mai'r broblem oedd bod y drefn resol ar lefel canolfan, felly, er enghraifft, pe bai "profion arwyddocâd" yn cael eu defnyddio i geisio cadarnhau gogwydd, yna byddai risg uchel iawn o ganlyniadau positif anghywir. Adroddodd fod y mater hwn wedi'i drafod a daethpwyd i'r casgliad y dylid canolbwyntio ar y canlyniadau er mwyn canfod unrhyw newidiadau mewn bylchau cyrhaeddiad ar lefel genedlaethol a gweld unrhyw batrwm newid annodweddiadol.
- 2.16. Dywedodd aelodau'r bwrdd ei bod yn bwysig sicrhau bod y cynigion yn deg i golegau Addysg Bellach yn ogystal ag ysgolion.
- 2.17. Dywedodd aelodau'r bwrdd y gallai Graddau Asesu Canolfannau (CAGs) ar gyfer y 15 ymgeisydd sy'n ymgymryd â'r THSau ôl-16 cenedlaethol gael eu codi ond roeddent yn cydnabod nad oedd dewis arall amlwg yn lle dyfarnu'r CAGs i'r dysgwyr hynny.
- 2.18. Gofynnodd aelodau'r bwrdd beth fyddai'n digwydd pe bai gwall amlwg yn y drefn restrol a gyflwynwyd gan ganolfan. Ymatebodd TA y gallai ysgolion sy'n trawsnewid eu trefn restrol ar ddamwain fod yn bosiblwydd ac roedd CBAC wedi ymgymryd â phrosesau gwirio ar gyfer hyn a byddent yn mynd yn ôl at ganolfan pe bai unrhyw beth amlwg yn codi. Fel arall, byddai'r gwallau hyn yn cael sylw trwy'r broses apelio.
- 2.19. Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i gofnodi manwl gyweirio'r cynigion. Gofynnodd a fyddai ymgeiswyr yn cael mantais o ddefnyddio'r model DCP lle nad oedd ganddynt unrhyw ddata wedi'i fancio o'i gymharu â dysgwyr lle'r oedd yr NCUC yn cael ei ddefnyddio. Ymatebodd JR mai'r broblem oedd na ellid defnyddio'r NCUC ar gyfer yr ymgeiswyr hynny, felly roedd yn rhaid i'r DCP fod y "mesur wrth gefn".
- 2.20. Gofynnodd aelodau'r bwrdd sut y byddai canlyniadau ymgeiswyr ar y ffin yn cael eu monitro lle'r oedd data asesu wedi'i fancio. Ymatebodd JR fod CBAC yn cynnal gwiriadau ar raddau Safon Uwch lle'r oedd data asesu wedi'i fancio. Dywedodd fod codiad wedi'i ymgorffori yn y model ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n ailsefyll unedau Safon UG. Ychwanegodd PB nad oedd unrhyw ffordd o nodi pa ymgeiswyr fyddai ar y ffin gan ddefnyddio'r model ystadegol ac nad oedd unrhyw gamau y gellid eu cymryd yn achos yr ymgeiswyr hynny heb gyflwyno dyfarniad mympwyol.

- 2.21. Yna amlinellodd JR y cynigion ar gyfer Gwyddoniaeth TGAU (Dyfarniad Dwbl) a Gwyddoniaeth Gymhwysol TGAU (Dyfarniad Dwbl). Esboniodd mai'r bwriad oedd defnyddio dull NCUC ar gyfer Gwyddoniaeth TGAU (Dyfarniad Dwbl) lle mae 45% o ddata uned wedi'i fancio yn achos 90% o'r ymgeiswyr. Y dull arfaethedig ar gyfer Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl) oedd y model DCP lle mai dim ond 68% o'r ymgeiswyr oedd â data wedi'i fancio.
- 2.22. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau ar y cynigion. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach.
- 2.23. Yna amlinellodd JR y cynigion ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg. Esboniodd y gwahaniaethau sylweddol rhwng cyfansoddiad y ddau gymhwyster; 75% o TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn gydrannau sy'n cael eu harholi a 25% yn asesiad di-arholiad (NEA). Esboniodd fod pedair uned yn Llenyddiaeth Gymraeg gyda phob un ohonynt wedi'u pwysoli'n gyfartal ar 25% (un o'r unedau hyn yn uned lafar ac un yn NEA).
- 2.24. Esboniodd fod y gwahaniaethau hyn yn cyfrif am wahaniaethau yn y modelau a gynigiwyd ym mhapur CBAC.
- 2.25. Esboniodd fod dull NCUC wedi'i fwriadu ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg (gyda "mesur i'w droi ato" i'r DCP lle nad oes fawr ddim tystiolaeth wedi'i bancio, os o gwbl).
- 2.26. Esboniodd, oherwydd cyfansoddiad y cymhwyster Llenyddiaeth Gymraeg, fod y gydberthynas rhwng yr unedau yn is ac nad oedd fawr o dystiolaeth gyson wedi'i bancio, felly cynigiwyd y dull DCP ar gyfer y cymhwyster hwn. Byddai'r dull DCP yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio data ar gyfer pobl ifanc 16 oed (er mwyn canolbwyntio ar ddata mwy sefydlog oherwydd bod strategaethau mynediad yn newid dros amser).
- 2.27. Nododd y Cadeirydd yr esboniad am y gwahanol ymagweddau at Llenyddiaeth Saesneg a Chymraeg a bod y model DCP yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob cymhwyster Cymraeg (Llenyddiaeth Gymraeg, Iaith Gymraeg a Chymraeg Ail Iaith). Gwahoddodd sylwadau a chwestiynau pellach.
- 2.28. Gofynnodd aelodau'r bwrdd pryd y byddai gwybodaeth am sut a phryd y byddai'r modelau a ddewiswyd yn cael eu cyhoeddi. Adroddodd JR fod fideos yn cael eu creu i egluro'r broses safoni ar lefel uchel a hynny ar gyfer pob un math o gymhwyster. Byddai Cymwysterau Cymru yn eu cyhoeddi ddechrau mis Awst cyn y canlyniadau. Esboniodd ymhellach y byddai CBAC yn cyhoeddi dogfennau ar Ddiwrnod y Canlyniadau ar agweddau technegol y modelau.
- 2.29. Gofynnodd aelodau'r bwrdd beth fyddai'n digwydd pe bai effaith negyddol ar ganlyniadau o ddefnyddio'r DCP fel y mesur "wrth gefn" (gan gyfeirio at 3.11 yn y papur). Ymatebodd TA ei bod yn annhebygol y byddai'r broses yn cael effaith sylweddol gan mai prin iawn oedd y canolfannau oedd ag ychydig neu ddim data wedi'u bancio. Gofynnir i CBAC am y rhagfynegiadau ystadegau cywirdeb wedi'u hail-redeg er mwyn cael sicrwydd ynghylch hyn. Esboniodd, pe bai problem gyda'r

canlyniadau, y gellid defnyddio'r NCUC ar gyfer canolfannau gyda rhywfaint o dystiolaeth wedi'i bancio a bod y DCP yn cael ei ddefnyddio yn unig ar gyfer canolfannau heb dystiolaeth wedi'i bancio. Ychwanegodd JR y byddai gwiriadau'n cael eu cynnal i sicrhau nad yw canlyniadau canolfan yn cael eu gwthio i lawr gan y broses wrth gefn.

- 2.30. Yna amlinellodd JR y cynigion ar gyfer y pynciau TGAU sy'n weddill: Mathemateg, Rhifedd Mathemateg, Saesneg: Iaith a Chymraeg: iaith. Esboniodd fod yr holl bynciau hyn yn gymwysterau llinol lle nad oedd asesiad wedi'i fancio, felly cynigiwyd y dull DCP. Byddai'r broses unwaith eto'n defnyddio data gan bobl ifanc 16 oed oherwydd patrymau mynediad newidiol dros y blynyddoedd diwethaf. Byddai slotio'n digwydd i ymgeiswyr trwy'r dull trefn restrol. Byddai safoni yn rhoi ystyriaeth i dueddiadau hanesyddol ar lefel canolfan gydag addasiad cyrhaeddiad blaenorol (e.e. pe bai 50% o'r ymgeiswyr wedi sefyll eu harholiadau Rhifedd yn sesiwn mis Tachwedd, byddai hyn yn cael ei ystyried).
- 2.31. Esboniodd JR fod Cymwysterau Cymru a CBAC wedi gweithio'n agos gyda phenaethiaid Addysg Bellad i sicrhau y gellid mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n benodol berthnasol i golegau Addysg Bellach (e.e. strategaethau ail-sefyll). Felly roedd CBAC hefyd yn mynd i edrych ar gyfraddau gwella hanesyddol ail-sefyll fel rhan o'r broses safoni i gyfrif am hyn.
- 2.32. Gofynnodd aelodau'r bwrdd i Gymwysterau Cymru graffu'n benodol ar y defnydd o ddata cyfraddau gwella gan CBAC.
- 2.33. Gofynnodd aelodau'r bwrdd a oedd cyngor cyfreithiol wedi'i geisio mewn perthynas ag ymgeiswyr yn cael CAGs mewn lleoliadau bach a'r THS cenedlaethol ôl-16. Ymatebodd JR fod mater lleoliadau bach wedi'i drafod ond nid ar lefel manylion technegol gweithredol. Esboniodd mai'r safbwynt cyfreithiol cyffredinol oedd ei bod yn bwysig dogfennu pob penderfyniad fel y gellir sefydlu prawf o "resymoldeb" ym mhob achos.
- 2.34. Nododd aelodau'r Bwrdd mai 83 oedd nifer yr ymgeiswyr preifat heb CAGs. Atgoffodd JR y Bwrdd y gofynnwyd i Brifysgolion a cholegau fod yn hyblyg yn eu gofynion derbyn eleni a'r bwriad oedd bod sesiwn mis Tachwedd yn rhedeg ar gyfer y rhai oedd am sefyll arholiadau mewn pynciau craidd.
- 2.35. Trafododd aelodau'r bwrdd y geiriad yn y papur y gellid ei ddarllen i awgrymu nad oedd digon o amser i ystyried modelau amgen. Cytunodd y Bwrdd, er nad oedd graddfeydd amser wedi bod yn ddelfrydol, eu bod yn hapus bod digon o gyfarfodydd wedi'u cynnal a bod digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno er mwyn i'r Bwrdd ystyried y papurau a gyflwynwyd yn drylwyr.
- 2.36. Gofynnodd aelodau'r bwrdd am sicrydd bod digon o arbenigedd ystadegol yng Nghymwysterau Cymru i herio cynigion CBAC a gofynnwyd a oedd yna wirwyr annibynnol mewn perthynas â'r cynigion. Ymatebodd JR fod gwaith yn cael ei rannu ar draws CCEA ac Ofqual o ran defnyddio'r modelau arfaethedig. Ychwanegodd TA fod modelau DCP a MBR wedi eu craffu'n allanol gan Grŵp Cyngori Technegol

Ofqual. Roedd model NCUC yn seiliedig ar ddull ystadegol 'busnes fel arfer' a ddefnyddir gan Gyrff Dyfarnu. Mae CBAC wedi ymgysylltu â CCEA ar ddefnyddio NCUC. Adroddodd JR fod CCEA hefyd wedi cyflogi ymgynghorwyr allanol mewn perthynas â defnyddio model NCUC. Ychwanegodd PB fod Cymwysterau Cymru yn hyderus o'i allu mewnol i fedru edrych ar y modelau arfaethedig.

- 2.37. Gofynnodd aelodau'r bwrdd am gynlluniau wrth gefn pe bai salwch neu glwstwr Covid-19 yn CBAC. Cadarnhaodd TA fod y mater hwn wedi'i drafod ar ddechrau'r pandemig ac y gallai staff Cymwysterau Cymru gael eu secondio i CBAC yn y senario hwnnw.
- 2.38. Roedd y Bwrdd yn fodlon cymeradwyo'r modelau safoni a gynigiwyd gan CBAC ar gyfer Tystysgrifau Her Sgiliau, Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl) a Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl) a TGAU Cam 1.
- 2.39. Yna rhoddodd PB ddiweddariad i'r Bwrdd ar y strategaeth gyfathrebu gyfredol ar gyfer Haf 2020. Esboniodd y byddai haenau cyfathrebu sydd wedi'u hanelu at wahanol grwpiau rhanddeiliaid yn cael eu rhyddhau e.e. fideos yn esbonio'r broses ar lefel uchel a'r deunyddiau fydd ar gael i ysgolion y gellir eu defnyddio i hysbysu dysgwyr a rhieni. Ychwanegodd KSD fod "cyfnod egluro" yn y cyfnod cyn dyddiau'r canlyniadau. Esboniodd fod ysgolion, athrawon, rhieni a dysgwyr yn gynulleidfaoedd â blaenoriaeth. Ychwanegodd PB fod gweminarau hefyd yn cael eu cynllunio ar gyfer y cyfnod cyn y canlyniadau i gynnwys consortia rhanbarthol ac eraill.
- 2.40. Awgrymodd aelodau'r bwrdd y gallai datganiad lefel uchel iawn gael ei ysgrifennu y byddai modd i bawb ei ddefnyddio.
- 2.41. Dywedodd PB fod canllawiau a gyhoeddwyd gan ASCL i ysgolion yn ddefnyddiol iawn a'i fod wedi rhybuddio athrawon i ddisgwyl newidiadau i raddau trwy'r broses safoni ac y byddai unrhyw negeseuon a gyflwynir gan Gymwysterau Cymru yn gyson â'r canllawiau hynny.
- 2.42. Nododd y Cadeirydd y cynnydd yn allbwn y cyfryngau cymdeithasol gan Gymwysterau Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf ac y dylai hyn barhau. Nododd KSD y gellid rhoi hwb i'r cyfryngau cymdeithasol dros yr wythnosau nesaf a bod cydgysylltu negeseuon gyda CBAC yn bwysig.

### **Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:**

- I. **Cymeradwydd y Bwrdd y modelau safoni a gynigiwyd gan CBAC ar gyfer y Tystysgrifau Her Sgiliau, Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl) a Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl) a TGAU Cam 1.**

Diwedd

